| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **CYNGOR SIR** |
| **DYDDIAD:** | **9 RHAGFYR 2010** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **CYNLLUN DATBLYGU AELODAU TACHWEDD 2010 – MAWRTH 2012** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **CAEL CEFNOGAETH Y CYNGOR AR GYFER Y CYNLLUN DATBLYGU AELODAU NESAF** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **CADEIRYDD Y GWEITHGOR DATBLYGU AELODAU/PENCAMPWR DATBLYGU AELODAU** |
| **SWYDDOG SY'N ARWAIN:** | **MIRIAM WILLIAMS, UWCH SWYDDOG DATBLYGU** |

Mae'r Gweithgor Datblygu Aelodau a sefydlwyd yn ddiweddar (GDA) ac a gefnogir gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) wedi datblygu Strategaeth Datblygu Aelodau, sy'n sail ar gyfer y nod, yn y pen draw, o ennill statws Siarter, ond mae hefyd yn rhoi pwynt cyfeirio a ffocws clir i'r grwp wrth gychwyn ar y daith i ennill statws Siarter.

Yn ei hanfod, mae'r strategaeth yn ymwneud â deall anghenion aelodau fel bod modd eu cefnogi'n well yn eu rolau trwy ddarparu trefniadau datblygu priodol sy'n cael eu monitro, eu gwerthuso a'u hadolygu'n gyson i sicrhau eu bod yn "addas i'r pwrpas" ac o'r ansawdd iawn.

Mae eleni wedi bod yn unigryw o ran y nifer o sesiynau hyfforddi a drefnwyd a chydnabyddir y gall fod yn anodd i rai  Aelodau Etheoledig wneud ymrwymiad iddynt oherwydd yr angen i'w cydbwyso gydag ymrwymiadau gwaith.  Yn gyffredinol, mae'r ymateb wedi bod yn eithaf cadarnhaol.

Gyda golwg ar hyn, mae'r GDA wedi llunio cynllun hyfforddi drafft ar gyfer y cyfnod Tachwedd 2010 – Mawrth 2012 i adlewyrchu'r prif feysydd datblygu a gynigir am y cyfnod nesaf.

Bydd y ddogfen yn "rhaglen dreigl" o sesiynau, a fydd yn dibynnu ar anghenion unigol Aelodau Etholedig ac anghenion yr Awdurdod/cydranddeiliaid eraill tra'n adlewyrchu, ar yr un pryd, yr adnoddau sydd ar gael.

Y nod yw sicrhau bod y cynllun yn fodd i gymryd camau cadarnhaol tuag at gefnogi aelodau yn eu rolau, gwella safonau, datblygu arferion da a chyflawni'r Siarter Datblygu Aelodau.

**ARGYMHELLIAD:**

Mabwysiadu ac ymrwymo i gefnogi'r cynllun yn Atodiad 1.

**ATODIAD / ENCLOSURE 1**

**CYNLLUN DATBLYGU BLYNYDDOL I AELODAU ETHOLEDIG**

**Tachwedd 2010 – Mawrth 2012**

| MAES | CYNULLEIDFA | DARPARWR POSIBL | DYDDIAD ARFAETHEDIG YR HYFFORDDIANT OS YW'N HYSBYS |
|---|---|---|---|
| **Sgiliau Cadeirio – Sesiynau Hyfforddi** | Cadeiryddion/ Is-Gadeiryddion | Clare Forrest | Tachwedd 2010 |
| **Rheoli Risg** | Pwyllgor Archwilio | James Quance – PWC<br>Owen Rees – Zurich | Tachwedd 2010 |
| **Rheoli'r Trysorlys** | Pwyllgor Archwilio / Pwyllgor Gwaith | Richard Basson, Sector | Rhagfyr 2010 |
| **Datblygu Protocolau Gwleidyddol** | | Ian Bottrill | Ionawr/Chwefror 2011 |
| **Côd Ymddygiad a Moeseg** | Cynghorau Tref a Chymuned | Ken Burton – Unllais Cymru | Chwefror 2011 |
| **Gwybodaeth Dylunio ar gyfer Cymru** | Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio | Allanol | Mawrth 2011 |
| **Cynllun Gwella Cynllunio** | Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio | Mewnol | Mawrth 2011 |
| **Rheoli Risg** | Pwyllgor Archwilio / Pwyllgor Gwaith | James Quance – PWC<br>Owen Rees – Zurich | Ebrill/Mai 2011 |
| **Y diweddaraf ar y Weithdrefn Gwynion Newydd Statudol** | Yr holl Aelodau | Swyddog Gwybodaeth Gorfforaethol a'r Swyddog Gofal Cwsmer | I'w drefnu |
| **Diweddariadau ynghylch Cynllunio** | Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio | Robyn Jones (Cyfreithiol) & E Gwyndaf Jones (Cynllunio) | Fel a phryd y caiff ei nodi |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Y diweddaraf ar Drwyddedu** | Aelodau'r Pwyllgor Trwyddedu | Ar y cyd gyda Chyngor Sir Gwynedd | Fel a phryd y caiff ei nodi |
| **Y diweddaraf ar y Côd Ymddygiad** | Yr holl Aelodau | Swyddog Monitro | I'w drefnu |
| **Sgiliau TG** | Yr holl Aelodau | Darparwyr Mewnol ac Allanol | Fel a phryd y caiff ei nodi |
| **Trosolwg o Reolaeth Prosiect** | Fel y caiff ei nodi gan y Rheolwr Prosiect Interim | Mewnol | Fel a phryd y caiff ei nodi |
| **Blaenoriaethu Baich Gwaith** | Yr holl Aelodau | Ar y cyd gyda Chyngor Sir Gwynedd | I'w drefnu |
| **Sgriwtini – Dadansoddi Cyllidebau** | Yr holl Bwyllgorau Sgriwtini | Cyfarwyddwr Cyllid Corfforaethol | I'w drefnu |
| **Sgriwtini – Cadeirio** | Yr holl Bwyllgorau Sgriwtini | Clare Forrest | I'w drefnu |
| **Sgriwtini - Sgiliau Cwestiynu** | Yr holl Bwyllgorau Sgriwtini | Mewnol | I'w drefnu |
| **Cynllunio Adolygiad Manwl o Sgriwtini** | Yr holl Bwyllgorau Sgriwtini | Mewnol | I'w drefnu |
| **Materion Pwrcasu** | I'w nodi | Mewnol | I'w drefnu |
| **Hyfforddiant Cyflwyno** | Fel a nodir ar gyfer Aelodau Etholedig newydd | Mewnol | Fel a phryd y caiff ei nodi |